Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol

## Effaith COVID-19, Adferiad a Heriau yn y Dyfodol

Medi 2021

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae cynghorau wedi cael cyllid ychwanegol sylweddol i ymdrin â'r pandemig, ond mae cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn dal i fod yn heriol yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol eraill.

Cefndir – Ein gwaith ar gynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol yn ystod 2020-21 4

Y darlun mwy – benthyca, gwario, a phwysau'r galw 5

Cynaliadwyedd ariannol – canfyddiadau allweddol o'n gwaith 9

Pedwar cam i helpu i wella cynaliadwyedd ariannol cynghorau 14

Gwaith Archwilio Cymru yn y dyfodol ar gynaliadwyedd ariannol cynghorau 16

# Cefndir

## Ein gwaith ar gynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol yn ystod 2020-21

Yn ystod 2020-21 fe wnaethom fwrw golwg ar gynaliadwyedd ariannol pob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru, gan gynnwys:

- effaith ariannol y pandemig;
- strategaethau ariannol;
- sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn;
- perfformiad yn erbyn y gyllideb, a
- chyflawni arbedion a hylifedd (i ba raddau y mae asedau cyfredol yn gallu cyflenwi dyled).

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu rhai themâu a chanfyddiadau allweddol o'n gwaith, peth sylwebaeth ar bwysau o ran cyllid, a rhai myfyrdodau ynghylch sut y gellid cryfhau cynaliadwyedd ariannol cynghorau yn y dyfodol.

# Prif adroddiad

## Y darlun mwy – benthyca, gwario, a phwysau'r galw

**Mae cyllid byrdymor ychwanegol wedi helpu ond mae heriau ac ansicrwydd dros y tymor hwy yn dal i fodoli**

- Fe sefydlodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ffrydiau cyllid a grantiau pwysig mewn ymateb i'r pandemig – ond mae'n annhebygol y bydd y patrymau gwariant hyn yn cael eu cynnal.
- Mae'r adroddiad, Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus, a gyhoeddwyd gennym ym mis Medi 2021 yn nodi rhagor o wybodaeth a dadansoddiad o wariant y sector cyhoeddus a rhagamcanion ar gyfer y dyfodol.
- Mae gan lywodraeth leol rôl allweddol o ran cefnogi a llunio adferiad o'r pandemig, fel darparwr ystod eang o wasanaethau lleol allweddol, a hefyd trwy ei rôl arweinyddiaeth gymunedol, gan gynnwys gweithio gydag ystod o bartneriaid.


**Cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol – sut y mae'r sefyllfa yng Nghymru'n cymharu â Lloegr**

- Lloegr – Canfu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod sefyllfa ariannol llywodraeth leol yn dal i fod yn achos pryder gyda'r rhagolwg yn edrych yn ansicr, a nododd ddibyniaeth llawer o gynghorau ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i fantoli eu cyllidebau ar gyfer 2020-21[1].
- Cymru – Ar y cyfan, nid yw cynghorau wedi dibynnu ar eu cronfeydd wrth gefn i fantoli eu cyllidebau ar gyfer 2020-21, yn bennaf oherwydd y cyllid ychwanegol y trefnwyd ei fod ar gael iddynt i liniaru effaith y pandemig. Ond mae heriau sylweddol yn dal i fodoli wrth edrych tua'r dyfodol.

1 Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Local government finance in the pandemic, Mawrth 2021

## Arddangosyn 1: sut yr oedd cronfeydd ariannol wrth gefn defnyddiadwy[2] cynghorau wedi newid cyn y pandemig


**Cyfanswm Cymru gyfan ar gyfer awdurdodau unedol,
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn refeniw nas diogelir gan y gyfraith**




## Arddangosyn 2: swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy[2] fel canran o gost net gwasanaethau dros amser

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos y gwerthoedd cyfartalog, uchaf ac isaf ar gyfer y prif gynghorau yng Nghymru ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol rhwng 2015-16 a 2019-20.

**Cyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel % o gost net gwasanaethau**




| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Uchaf yn y flwyddyn ● | 33.5% | 34.4% | 33.6% | 33.6% | 33.4% |
| Cyfanswm Cymru gyfan ar gyfer awdurdodau unedol – | 19.6% | 19.0% | 18.9% | 18.0% | 18.1% |
| Isaf yn y flwyddyn ▲ | 10.4% | 8.8% | 7.2% | 6.1% | 4.2% |

Mae isaf ac uchaf yn cyfeirio at werth cyngor unigol yn y flwyddyn benodol honno.

2 Ein diffiniad o gronfeydd ariannol wrth gefn defnyddiadwy yw cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer costau refeniw, lle nad yw'r diben yn cael ei ddiogelu gan y gyfraith. Cyfanswm y gronfa gyffredinol, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a balansau ysgolion yw hyn. Nid yw'n cynnwys cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf a grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso.

**Mae lefelau benthyca'r sector cyhoeddus wedi cynyddu yn ystod y pandemig ac mae lefelau'r cyllid yn y dyfodol yn ansicr**

- Mae lefelau benthyca Llywodraeth y DU wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pandemig[3].
- Mae lefelau'r cyllid yn y dyfodol yn dal i fod yn ansicr; er enghraifft, ym mis Mawrth 2021 dywedodd Prifysgol Caerdydd fod y rhagolygon ar gyfer cyllideb Cymru yn 'hynod ansicr'[4]. Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) hefyd wedi amlygu'r ansicrwydd mewn perthynas â chyllid y sector cyhoeddus yn y dyfodol.
- Mae'n debygol y bydd pwysau sylweddol ar gyllid llywodraeth leol, yn arbennig ar gyfer y meysydd gwasanaeth hynny nad ydynt yn cael eu blaenoriaethu fel rhan o bennu cyllidebau ar gyfer y dyfodol[5].

**Mae'r galw am rai gwasanaethau'n debygol o gynyddu**

- Mae ein hadroddiad diweddar ar wasanaethau dewisol[6] yn amlygu bod y galw am rai gwasanaethau gan gynghorau'n cynyddu. Mae'r ffeithlun isod, o'r adroddiad hwnnw, yn crynhoi rhai o'r pwysau allweddol o ran y galw.
- Gallai pwysau'r galw o ganlyniad i'r pandemig barhau, er enghraifft am ddarpariaeth addysg ychwanegol i ddal i fyny oherwydd amser a gollwyd pan oedd ysgolion ar gau. Nid yw goblygiadau mwy hirbarhaol y pandemig ar gyfer y galw am wasanaethau llywodraeth leol yn hysbys eto.

**Roedd gwariant ar wasanaethau dewisol llywodraeth leol wedi gostwng yn barod cyn y pandemig**

- Roedd gostyngiadau yn y cyllid eisoes wedi arwain at rai toriadau i wasanaethau cyn y pandemig[7], er bod y pandemig wedi codi proffil gwasanaethau llywodraeth leol ac yn arbennig eu rôl o ran helpu i gadw pobl yn ddiogel ac yn iach.

3 CIPFA, Local authorities face a financial reckoning, Tachwedd 2020

4 Dadansoddi Cyllid Cymru, Welsh Election 2021 Fiscal outlook and challenges for the next Welsh Government Welsh Election Briefing, Ebrill 2021

5 Dadansoddi Cyllid Cymru, Local government finance: the state of play in 2021-22, Mawrth 2021

6 Archwilio Cymru, Yn Ôl Eich Doethineb – Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol, Ebrill 2021

7 Archwilio Cymru, Yn Ôl Eich Doethineb – Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol, Ebrill 2021

## Arddangosyn 3: ffeithiau allweddol am wasanaethau cynghorau a'r galw amdanynt[8]

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos rhai ffeithiau allweddol am wasanaethau cynghorau gan gynnwys rhai pwysau allweddol o ran y galw

Mae cynghorau yng Nghymru yn gyfrifol am dros 1,450 o swyddogaethau, gweithgareddau a gwasanaethau

Yn 2019-20 gwariodd cynghorau oddeutu £8.3 biliwn mewn termau real ar wasanaethau

Yn y degawd diwethaf mae gwariant y cyngor ar wasanaethau wedi gostwng o 7.9%

Rhagwelir y bydd y gyfran o boblogaeth Cymru dros 75 oed yn cynyddu o 29.3% i 378,100 erbyn 2028 a'r rheiny dros 65 oed o 16.3% i 758,600

Mae'r galw am wasanaethau'r cyngor yn dal i gynyddu

Cynyddodd y plant oedd yn derbyn gofal gan gynghorau ar ddiwedd y flwyddyn o 5,660 yn 2016 i 7,170 yn 2020, cynnydd o 26.7%

Mae'r oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod (diogelu) wedi codi o 27% o 11,761 yn 2016-17 i 14,938 yn 2018-19

Mae teuluoedd digartref mewn angen sy'n flaenoriaeth wedi cynyddu o 40%, gan godi o 22,260 yn 2015-16 i 31,170 yn 2018-19

Yn y 100 mlynedd ddiwethaf mae'r disgwyliad oes cyfartalog wedi codi o 24 o flynyddoedd i 79.4 i ddynion ac o 23 o flynyddoedd i 83.1 i ferched

Mae tlodi ymysg pobl yn oedran pensiwn wedi codi o 14% yn 2009-2012 i 19% yn 2015-2018

Yn fras, mae un mewn pedwar o bobl yng Nghymru'n byw mewn tlodi

Mae'r bobl sy'n cysgu allan wedi codi o 240 yn 2015-16 i 405 yn 2019-20, cynnydd o 68.7%

Cododd y teuluoedd mewn cartrefi dros dro o 24.2% rhwng 2015-16 a 2019-20

Nodyn: Mae'r ffigwr o £8.3 biliwn ar gyfer cyfanswm gwariant cynghorau'n cynnwys y cyfanswm gwariant refeniw ar wasanaethau ac yn cynnwys gwariant ar rai meysydd nad ydynt yn rhan o wasanaethau megis ad-dalu benthyciadau, ardollau, pensiynau a dyraniadau i gronfeydd wrth gefn. Nid yw'r ffigwr yn cynnwys incwm, megis taliadau a ffioedd, a grëir gan wasanaethau. Roedd y gwariant gros ar wasanaethau yn 2019-20 yn £9.2 biliwn.

8 Archwilio Cymru, Yn Ôl Eich Doethineb – Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol, Ebrill 2021

## Cynaliadwyedd ariannol – canfyddiadau allweddol o'n gwaith

### Ein canfyddiadau o fis Hydref 2020

- Ym mis Hydref 2020, fe ddwedom ni: 'Mae cynghorau a Llywodraeth Cymru a wedi cydweithio'n dda i liniaru effaith y pandemig hyd yma ond mae cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus'. Fe wnaethom hefyd nodi bod 'rhai cynghorau mewn sefyllfa well yn ariannol na'i gilydd i ymateb i heriau'r pandemig'[9].

### Canfyddiadau ar y cyfan o'n gwaith yn 2020-21

- Canfuom fod cynghorau wedi cael cyllid ychwanegol sylweddol i ymdrin â'r pandemig, ond bod cynaliadwyedd y sector llywodraeth leol yn y dyfodol yn dal i fod yn heriol yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol eraill.
- Ar ôl cyhoeddi ein hadroddiad cryno cenedlaethol ym mis Hydref 2020, aethom ati wedyn i fwrw golwg ar gynaliadwyedd ariannol pob prif gyngor yng Nghymru.
- Fe wnaethom gynhyrchu adroddiadau lleol ar gyfer pob cyngor.
- Oherwydd y cyllid ychwanegol y mae cynghorau wedi'i gael mewn ymateb i'r pandemig, mae'r sefyllfa ariannol wedi gwella i bob yn o'r 22 o gynghorau eleni.
- Ond mae'r darlun ar y cyfan o ran cynaliadwyedd ariannol cynghorau'n dal i fod yn gymysg; mae rhai cynghorau'n dal i fod mewn sefyllfa well nag eraill i ymateb i heriau yn y dyfodol.
- Mae'r adran nesaf yn crynhoi'r themâu allweddol y gwnaethom eu hadnabod trwy'r gwaith yma gan gynnwys, lle y bo'n berthnasol, o'n hadroddiad ym mis Hydref 2020 yn ogystal â'n gwaith blaenorol ar gynaliadwyedd ariannol.

9 Archwilio Cymru, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19, Hydref 2020

## Themâu allweddol o'n gwaith yn 2020-21

### Effaith ariannol COVID-19

- Fe ddwedom ni ym mis Hydref 2020 fod rhai cynghorau mewn sefyllfa well yn ariannol nag eraill i ymateb i heriau'r pandemig.
- Hyd yma, mae costau COVID-19 wedi cael eu lliniaru ym mhob cyngor gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

### Arddangosyn 4: Cost COVID-19 yn ystod 2020-21

Mae'r arddangosfa ganlynol yn nodi'r cyllid ychwanegol a roddwyd i gynghorau gan Lywodraeth Cymru dros 2020-21 mewn ymateb i bandemig COVID-19.

- £660 miliwn o gyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu gan Lywodraeth Cymru i'r Gronfa Galedi i ariannu colledion incwm a gwariant ychwanegol cynghorau[10].
- yn ogystal â chyllid arall gan Lywodraeth Cymru megis cyllid ychwanegol i athrawon ar gyfer cymorth dal i fyny ag addysg a deunyddiau glanhau ar gyfer ysgolion.
- Mae cyfarpar diogelu personol wedi cael ei ddarparu'n rhad ac am ddim hefyd i'r rhan fwyaf o gyrff llywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru trwy Gydwasanaethau'r GIG.



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

### Strategaethau ariannol

- Dim ond dadansoddiad cyfyngedig y mae llawer o gynghorau wedi'i gyflawni o effaith fwy hirdymor COVID-19 (hyd yn oed mewn perthynas â thybiaethau gweithio neu senarios) neu effaith fwy hirdymor newidiadau yn y galw.
- Mae'r rhan fwyaf o gynghorau, ond nid pob cyngor, yn cynnwys rhai tybiaethau ynghylch y dreth gyngor am y pedair neu bum mlynedd nesaf yn eu strategaethau ariannol. Mae'r codiadau rhagamcanol yn y rhain yn amrywio rhwng 3% a 5%.
- Mae'r rhan fwyaf o strategaethau ariannol, ond nid pob strategaeth ariannol, hefyd yn cynnwys tybiaethau ynghylch Cyllid Allanol Cyfun[11] sy'n amrywio rhwng 0% a 3%. Mae ychydig o gynghorau'n cynllunio ar sail senarios sy'n amrywio o'r achos gorau i'r achos gwaethaf.

10 Er bod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £660 miliwn, erbyn diwedd y flwyddyn ariannol mae'n nodi ei bod wedi gwario £587 miliwn.

11 Mae Cyllid Allanol Cyfun yn cynnwys Grant Cynnal Refeniw gan Lywodraeth Cymru ac Ardrethi Annomestig.

- Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o'n hadroddiadau lleol yn myfyrio ynghylch y gwaith parhaus y mae ei angen i ddatblygu dull cynllunio ariannol mwy cynaliadwy yn y tymor canolig a hir.


### Sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn

### Arddangosyn 5: cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy – yr hyn ddwedom ni yn ein hadroddiad ym mis Hydref 2020[12]

**Roedd ein hadroddiad ym mis Hydref 2020 yn nodi fel a ganlyn:**




- roedd y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy  a oedd yn cael eu dal gan gynghorau'n amrywio o oddeutu £11 miliwn i dros £119 miliwn.
- roedd ystod eang o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel cyfran o gost net gwasanaethau pob cyngor: o 5% i 33%
- bod gan gynghorau Cymru ar y cyfan dros £1 biliwn o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar ddiwedd mis Mawrth 2020.



- Mae gan rai cynghorau lefelau cymharol uchel o gronfeydd wrth gefn a fydd yn cefnogi eu gallu i ymateb i heriau, ac mae gan gynghorau eraill lefelau is o lawer o gronfeydd wrth gefn, a fydd yn ei gwneud yn anos ymateb i heriau yn y dyfodol.
- Ar ôl cwblhau ein gwaith lleol rydym wedi canfod hefyd bod yr holl gynghorau wedi cynyddu swm y cronfeydd wrth gefn yr oeddent yn eu dal ar ddiwedd 2020-21. Mae cynghorau wedi nodi cynnydd o fwy na £450 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2020-21. Byddwn yn adrodd ymhellach ar hyn yn dilyn ein harchwiliad o gyfrifon 2020-21.
- Mae gan rai cynghorau hanes da dros y blynyddoedd diwethaf o osgoi defnyddio cronfeydd wrth gefn i fantoli eu cyllideb.
- Mae rhai cynghorau wedi dibynnu ar ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i fantoli cyllidebau. Mae'r dull hwn yn annhebygol o fod yn gynaliadwy, yn enwedig i'r cynghorau hynny yr oedd eu lefelau o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy eisoes yn weddol isel.

12 Archwilio Cymru, Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19, Hydref 2020.

13 Wrth y term cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, rydym yn golygu cyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi nad yw cynghorau wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio ar gyfer diben arall. Cyfanswm y gronfa gyffredinol, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a balansau ysgolion yw hyn. Nid yw'n cynnwys cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau Cyfalaf a grantiau cyfalaf heb eu cymhwyso.

- Mae patrwm cyson o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn, hyd yn oed mewn ffordd wedi'i chynllunio, i fantoli gwariant refeniw yn annhebygol o fod yn gynaliadwy gan ei fod yn achosi risg o ddisbyddu cronfeydd wrth gefn i lefelau anghynaliadwy.

**Perfformiad yn erbyn y gyllideb**

- Ar ôl trosglwyddiadau mawr i gronfeydd wrth gefn, nododd y rhan fwyaf o gynghorau naill ai tanwariannau cymharol fach neu orwariannau ar y cyfan yn 2020-21, sy'n batrwm tebyg i'r ddwy flynedd ariannol flaenorol.
- Fe wnaeth y rhan fwyaf o gynghorau barhau i ddangos gorwariannau sylweddol mewn rhai meysydd gwasanaeth hefyd; mewn llawer o gynghorau, roedd gwasanaethau cymdeithasol yn enghraifft o hyn.
- Mae'r pandemig, ynghyd â heriau tymor hwy, yn golygu yn awr, yn fwy nag erioed, y bydd angen i gynghorau reoli cyllidebau'n effeithiol a sicrhau yr ymdrinnir â gwasanaethau neu feysydd lle ceir gorwariannau cyson.

**Cyflawni arbedion**

- Y llynedd canfuom fod y rhan fwyaf o gynghorau wedi cyflawni'r mwyafrif o'u harbedion, ond mai ychydig iawn oedd wedi cyflawni eu holl arbedion wedi'u cynllunio mewn blynyddoedd blaenorol. Canfuom yr un patrwm yn ystod 2020-21, a hefyd bod rhai cynghorau wedi cyrraedd eu holl dargedau arbedion, ond nid fel yr oeddent wedi'i gynllunio.
- Mae'n naturiol bod y pandemig wedi effeithio ar gynlluniau arbedion. Mae newidiadau yn y galw am wasanaethau, adleoli'r gweithlu a chamau gweithredu eraill a gymerwyd mewn ymateb i'r pandemig i gyd yn debygol o fod wedi cael effaith ar gyflawni rhai arbedion.
- Mewn nifer o gynghorau, roedd meysydd gwasanaeth yn dal i allu cyrraedd eu targedau arbedion. Cafodd rhai meysydd gwasanaeth hi'n haws cyflawni arbedion oherwydd:
  - cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru,
  - llai o alw am wasanaethau yn ystod y pandemig a/neu;
  - costau staff is yn ystod y pandemig.
- Mae cyflawni arbedion yn debygol o fod yn fwy byth o her wrth edrych tua'r dyfodol o ystyried maint y bylchau o ran cyllid a ragamcanir mewn rhai cynghorau yn y blynyddoedd sydd i ddod, a'r ffaith bod y ffactorau uchod a helpodd rai meysydd gwasanaeth i gyflawni arbedion yn ystod 2020-21 yn annhebygol o ailddigwydd.
- Bydd cynghorau â phrosesau cynllunio arbedion cadarn ac effeithiol mewn sefyllfa well i fwrw'r maen i'r wal gyda chynigion a chyflawni cynlluniau yn y tymor hwy.

## Hylifedd[14]

- Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o gynghorau'n dangos cymhareb hylifedd ffafriol a sefydlog (y gymhareb rhwng eu hasedau cyfredol a'u rhwymedigaethau cyfredol) sy'n awgrymu bod y cynghorau hynny mewn sefyllfa dda i gyflawni eu rhwymedigaethau cyfredol.
- Mae ychydig o gynghorau'n dangos cymhareb hylifedd gymharol isel. Ynddo'i hun nid yw hyn yn broblem yn arbennig. Ond os yw lefelau cronfeydd wrth gefn yn gymharol isel hefyd ac os nad yw arbedion yn cael eu cyflawni, gyda'i gilydd gallai hyn ddynodi diffyg cydnerthedd.

14 Mae hylifedd yn golygu'r gymhareb rhwng asedau a rhwymedigaethau'r cyngor.

## Pedwar cam i helpu i wella cynaliadwyedd ariannol cynghorau

**Arddangosyn 6: pedwar cam i helpu gyda chynaliadwyedd ariannol cynghorau**

Yn seiliedig ar y canfyddiadau o'n gwaith lleol, ynghyd â'r themâu a'r heriau y myfyrir yn eu cylch yn y papur hwn, mae'r arddangosyn isod yn crynhoi rhai camau allweddol sy'n nodi beth all cynghorau ei wneud i wella cynaliadwyedd ariannol.

**1**

**Strategaethau ariannol**



**Deall heriau tymor byr, canolig a hir a nodi'n glir beth yw'r blaenoriaethau ar y cyfan ar gyfer sefyllfa ariannol y cyngor**

- Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn amlygu'r ansicrwydd ynghylch cyllid y sector cyhoeddus yn y dyfodol, gan erfyn ar gynghorau i ddefnyddio amrywiaeth o ddata a gwaith rhagweld fel rhan o'u trefniadau cynllunio ariannol dros y tymor canolig[15].
- Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod y lefel debygol o gyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu.
- O ystyried y pwysau disgwyliedig o ran cyllid sy'n wynebu'r holl gynghorau, mae'n bwysig nodi sut i ymateb i'r pwysau hynny yn y dyfodol, ac yn arbennig sut y byddant yn cau bylchau o ran cyllid a ragamcanir.
- Mae'n bwysicach yn awr nag erioed i fod â strategaeth ariannol gadarn sy'n adeiladu darlun o sefyllfa ariannol y cyngor dros y tymor canolig a hir gan gynnwys amcanestyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth dda o ran pwysau'r galw yn y dyfodol.
- Dylai cynghorau sicrhau bod aelodau'n ymwybodol ac yn deall beth yw tarddiad tybiaethau eu cyngor a sut mae'r tybiaethau'n cymharu â'r rhai a wnaed gan gynghorau eraill.
- Mae'r pandemig hefyd wedi dangos manteision cynnwys hyblygrwydd mewn strategaethau ariannol, a chynllunio ar gyfer gwahanol senarios. Dylid cyflwyno dewisiadau eglur i gynghorwyr a'r rheiny'n seiliedig ar wybodaeth gynhwysfawr a chadarn gan gynnwys:

- cyfanswm lefelau'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael i'w defnyddio;
- pwysau o ran cyllid yn y dyfodol; ac
- ystod lawn o dybiaethau cynllunio.

15 CIPFA, Local authorities face a financial reckoning, Tachwedd 2020

**2**

**Cronfeydd wrth Gefn**



**Cynllunio eich ymagwedd tuag at gronfeydd wrth gefn a'ch defnydd ohonynt i sicrhau bod hynny'n cefnogi cynaliadwyedd ariannol tymor hwy**

- Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'n rhwyd ddiogelwch bwysig i gefnogi cynaliadwyedd ariannol.
- Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig hefyd i gefnogi mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau neu ar gyfer rhaglenni trawsnewid.
- Bydd mynd ati'n rheolaidd i adolygu lefelau cronfeydd wrth gefn ac ystyried a yw lefelau'n briodol yn helpu i bennu blaenoriaethau o ran defnyddio cronfeydd wrth gefn.
- Dylai cynghorau sicrhau bod cynghorwyr yn deall rôl cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac annefnyddiadwy, a sut y mae'r rhain yn cysylltu â'r strategaeth ariannol gyffredinol a thymor hwy ar gyfer y Cyngor

**3**

**Perfformiad yn erbyn y gyllideb**




**Gwybod beth y mae'n realistig i wasanaethau ei gyflawni ac yna deall a gweithredu ar feysydd lle ceir gorwariannau cyson**

- Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos at y lefelau a gynlluniwyd â phosibl.
- Mae cyngor sy'n methu â rhagweld a chynllunio gwariant yn gywir yn achosi risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a all beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig.
- Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.
- Dylid ceisio rheoli cyllidebau'n effeithiol trwy gydol y flwyddyn, yn hytrach nag ymarferion cyllidebol untro.

**4**

**Cyflawni arbedion**



**Deall yr hyn y mae’n realistig i wasanaethau ei gyflawni o ran arbedion neu ostyngiadau mewn costau a gweithredu ar feysydd nad ydynt yn gyson yn cyflawni arbedion wedi’u cynllunio**

- Mae’r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny’n ddiweddarach, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus.
- Lle na chaiff cynlluniau arbedion eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy’n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn gan hefyd gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen mewn blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn.
- Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a bod angen i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu’r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau’r Cyngor, neu o ddatrysiadau ‘byrdymor’ nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.
- Mae cael cynlluniau arbedion yn iawn, a sicrhau bod cynlluniau’n realistig ac y cânt eu datblygu ar y cyd rhwng cynghorwyr, timau rheoli gweithredol a gwasanaethau yn bwysicach yn awr nag a fu erioed.

## Gwaith yn y dyfodol gan Archwilio Cymru ar gynaliadwyedd ariannol cynghorau

- Ar gyfer 2021-22, byddwn yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol cynghorau unigol trwy ein gwaith archwilio parhaus.
- Yn dilyn cwblhau ein harchwiliadau o gyfrifon 2020-21 byddwn hefyd yn cyhoeddi offeryn data cynaliadwyedd ariannol, gan gynnwys data ar sefyllfa diwedd blwyddyn cynghorau ar gyfer 2020-21, a byddwn yn parhau i ddiweddaru hwn yn flynyddol.
- Efallai y byddwn yn gwneud gwaith pellach mewn rhai cynghorau lle’r ydym yn canfod risgiau penodol.
- Byddwn yn dychwelyd at waith cenedlaethol yn y dyfodol lle’r ydym yn credu bod y sefyllfa’n teilyngu hynny a lle gallem ychwanegu gwerth.
- Byddwn hefyd yn ystyried y posibilrwydd o gymharu sefyllfa ariannol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru â’r rhai ledled y DU yn ogystal â gwaith cenedlaethol posibl mewn perthynas â themâu penodol.
- Wrth wneud unrhyw waith posibl yn y dyfodol, byddwn yn parhau i ymgysylltu â Chymdeithas Trysorwyr Cymru.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660
Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru